# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 23 Mai, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, S. Lloyd-Selby, E. Penn, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, I.R. Buckley, C.P. Franks, J. Protheroe a N.C. Thomas.

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd I.A.N. Perry yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR DDATBLYGU MANWERTHU A CHANOL TREFI A DATBLYGU ECONOMAIDD, TIR AC ADEILADAU CYFLOGAETH (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth a wnaed fel rhan o'r sesiwn briffio Aelodau fel y manylir arno yn Atodiad 1 ac na ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL ARFAETHEDIG 2023/24 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C i'r adroddiad.

(2) NODI Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 2023/24.

(3) CYMERADWYO Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad E i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

(4) Y DYLID cyfeirio awgrym Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o'r enw "Cymunedau 15 Munud" i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini i'w ystyried ymhellach er mwyn canfod a yw'r awgrym yn mynd rhagddo.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) Er mwyn caniatáu i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini ystyried pynciau ar gyfer gweithgareddau adolygu Tasg a Gorffen.